



## Dinas a Sir Abertawe

### Gwarchod Coed ar Safleoedd Datblygu Hydref 2016

Y camau y mae angen eu hystyried yn y Cyfnodau Cynllunio a Dylunio ac yn ystod Adeiladu i sicrhau bod coed sylweddol presennol ac arfaethedig yn cael eu cadw'n iach ac yn dod yn ased i ddatblygiad newydd.



Enghraifft o gadw coed presennol a phlannu rhai newydd wrth greu 'lle'.

Mae'r dudalen hon yn cael ei adael yn wag yn fwriadol

## 1.0 CYFLWYNIAD



Enghraifft o gadw coed presennol a phlannu rhai newydd © getmapping.com

- 1.1 Lluniwyd yr arweiniad hwn i roi gwybodaeth sylfaenol i ddatblygwyr am sut yr ymdrinnir â choed yn y system gynllunio. Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad clir a chyson i ymgeiswyr ar ofynion yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) o ran coed a datblygiadau.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn ymwneud yn bennaf â choed, coetiroedd, perthi, gwrychoedd a llwyni mawr ('coed' o hyn ymlaen). Mae 'coed' yn rhoi cynefin i rywogaethau a warchodir megis adar ac ystumod y mae angen eu hystyried yn y broses gynllunio ac a warchodir gan ddeddfwriaeth arall.
- 1.3 Mae 'coed' o bwys hanfodol i'r dirwedd. Erbyn hyn, derbynnir yn gyffredinol fod gan goed mewn trefi a dinasoedd a'r cyffiniau rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo cymunedau cynaliadwy ac yn gwneud cyfraniad sylweddol yn y gwerth diwylliannol a threftadaeth yng

nghyd-destun parc hanesyddol, gerddi a thirwedd a gynlluniwyd. Mae coed a llwyni mawr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad golygfaol ac amrywiaeth y dirwedd ac maent yn bwysig wrth greu 'lle', yn rhoi cynefin hanfodol i boblogaethau bywyd gwyllt dibynnol a manteision amgylcheddol sylweddol megis gwella ansawdd bywyd, gwanhau sŵn a gwella'r hinsawdd ac ansawdd aer. Hefyd, gall coed helpu i warchod adeiladau rhag yr elfennau, rhoi cysgod a chynorthwyo o ran cadwraeth ynni. Gall coed wella datblygiad newydd, ei gymeriad, ei ymdeimlad o aeddfedwydd a'i ansawdd cyffredinol, gan helpu gyda gwerthadwyedd a phroffidioldeb eiddo. Mae eu heffaith gadarnhaol ar yr amgylchedd hefyd yn helpu i ddenu busnesau ac ymwelwyr i ardal, gan roi hwb i'r economi o ganlyniad. Yn ogystal â gwarchod coed a bywyd gwyllt yn ddeddfwriaethol, mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion amgylcheddol a manteision iechyd bod yn agos at goed neu eu gweld hefyd yn cynyddu. Felly, mae datblygwyr dan bwysau cynyddol i ganolbwyntio ar goed a'u rôl wrth ddarparu amgylchedd mwy dymunol ac iachach.

- 1.4 Gall coeden gymryd canrif i gyrraedd aeddfedwydd, ond gellir ei difrodi neu ei thorri mewn ychydig o funudau. Mae'r fath ddifrod yn aml yn cael ei achosi'n ddjarwybod oherwydd methiant i ddeall bregusrwydd coed, yn enwedig y system wreiddiau, a pha mor hawdd y gellir eu difrodi. Pan gaiff coed eu difrodi wrth ddatblygu safle ac, o ganlyniad, yn dirywio ac yn marw, neu lle mae dylunio amhriodol neu wael yn arwain at wrthdaro, daw coed yn ffynhonnell gwyno gyson ac, yn y pen draw, caiff y manteision cadarnhaol eu colli. **Mae codi mesurau gwarchod coed a'r tirlun yn gynnar i sefydlu parthau gwahardd adeiladu cyn i waith ddechrau ar safle'n hanfodol. (Gweler 6.1)**

## 2.0 CYD-DESTUN Y POLISI A DEDDFWRIAETH

- 2.1 Mae Adran 197 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau, lle bynnag y mae hynny'n briodol, bod wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad, gwneir darpariaeth ddigonol ar gan osod amodau, ar gyfer cadw neu blannu ar coed. Os yw'n ymddangos i awdurdod cynllunio lleol ei bod yn hwylus er lles amwynder i wneud darpariaeth ar gyfer cadwraeth o goed neu goetiroedd yn eu hardal, mae Adran 198 o'r Ddeddf yn darparu y pŵer i wneud Gorchymyn Cadw Coed (GCC /TPO) ar gyfer y pwrpas hynny. O dan Adran 211 o'r Ddeddf, mae coed mewn ardaloedd cadwraeth yn ddarostyngedig i reolaethau tebyg fel coed y mae Gorchymyn Cadw Coed yn berthnasol iddo.
- 2.2 Lluniwyd yr arweiniad hwn yn unol â'r arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru, Nodiadau Cyngor Technegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Cynllun Datblygu Unedol Dinas a Sir Abertawe a'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n dod i'r amlwg<sup>4</sup>.

- 2.3 **Rhifyn 8 Polisi Cynllunio Cymru (PCC).** Mae Polisi Cynllunio Cymru'n egluro bod "coed, coetiroedd a gwrychoedd o bwys mawr, fel cynefinoedd bywyd gwyllt ac o ran eu cyfraniad i gymeriad a harddwch y dirwedd. Maent hefyd yn chwarae rôl wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy ddal carbon a gallant fod yn ffynhonnell ynni cynaliadwy. Maent hefyd yn dal glaw, yn arafu cyfradd y dŵr glaw sy'n cyrraedd afonydd a draeniau ac yn atal erydiad pridd, wrth sugno dŵr trwy eu gwreiddiau. Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio gwarchod coed, grwpiau o goed a choetiroedd lle mae ganddynt werth treftadaeth naturiol neu lle maent yn cyfrannu i gymeriad neu amwynder ardal benodol. Mae coetiroedd hynafol a lled-naturiol yn gynefinoedd o werth bioamrywiaeth uchel na ellir eu hadfer os cânt eu colli ac y dylid eu gwarchod rhag gwaith datblygu a fyddai'n arwain at ddifrod sylweddol" (Rhifyn 8 PCC, para. 5.2.9).
- 2.4 Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer plannu a chadw coed trwy osod amodau trwy ganiatâd cynllunio a/neu orchmynion cadw coed.
- 2.5 **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10: Gorchmynion Cadw Coed.** Mae TAN 10 yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac yn dweud bod gan awdurdodau cynllunio lleol bŵer o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Adran 198), er lles amwynder, i ddiogelu coed trwy wneud gorchmynion cadw coed (GCC). Felly, diogelir unrhyw goeden neu goetir a warchodir dan GCC yn gyfreithiol rhag torri, diwreiddio, tocio, brigdorri, difrodi bwriadol neu ddinistrio bwriadol heb ganiatâd wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- 2.5.1 Dylid ystyried Gorchmynion Cadw Coed lle dylid darparu ar gyfer cadw coed neu goetiroedd er lles amwynder (TAN 10; para. 14). Dylid gwneud GCC lle byddai cael gwarded ar goed a choetiroedd yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd a'i fwynhad gan y cyhoedd. Ni ellir gwneud GCC ar berthi, llwyni neu wrychoedd (fodd bynnag, gellir eu gwneud ar goed mewn gwrychoedd).
- 2.5.2 Mae Polisi Cadw Coed drafft Dinas a Sir Abertawe'n manylu ar ymagwedd y cyngor at warchod coed a sut dehonglir yr arweiniad yn TAN 10.
- 2.6 **Cynllun Datblygu Unedol Dinas a Sir Abertawe.** Mae Polisi EV30 yn dweud y canlynol: "Bydd gwarchod coetiroedd, coed a gwrychoedd a'u rheoli'n well, sy'n bwysig ar gyfer eu hamwynder gweledol, eu hamgylchedd hanesyddol, eu treftadaeth naturiol a/neu eu gwerth hamdden yn cael ei annog a rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol:
- i. Gwarchod yr ardaloedd sydd ar ôl o goetir hynafol lled-naturiol a safleoedd coetiroedd hynafol wedi'u plannu.

- ii. Hyrwyddo plannu newydd gyda rhywogaethau'n briodol i'r lleoliad, lle nad oes gwrthdaro ag unrhyw ddefnydd tir arall neu fuddiannau cadwraeth natur, a
- iii. Sicrhau y llwyddir i ddiogelu buddiannau amwynder lle mae rheoli'n cynnwys torri ac ailblannu masnachol."

### **3.0 ATAL DIFROD WRTH ADEILADU**

- 3.1 Yn ogystal â rhannau amlwg y goeden (canopi, canghennau a choesyn), mae'r gwreiddiau cuddiedig hefyd yn gallu cael eu difrodi yn ystod gwaith adeiladu. Yn gyffredinol, mae gwreiddiau i'w canfod yn 600mm uchaf pridd, er y gall dosbarthiad gwreiddiau fod yn fwy ddwfn a mae'n ddibynnu ar amodau'r safle a rhywogaethau coed. Maent yn cynnwys gwreiddiau strwythurol sy'n angori'r goeden a rhwydwaith o wreiddiau llai sy'n sugno dŵr a maetholion.
- 3.2 **Cynnal strwythur pridd.** Mae pridd delfrydol ar gyfer tyfu a datblygu gwreiddiau'n cynnwys tua 50 y cant o le mandyllau i ddŵr ac aer symud. Gall cyfarpar adeiladu trwm a/neu symudiadau cerddwyr niferus gywasgu uwchbridd ac isbridd, gan leihau lle mandyllau'n sylweddol. Mae cywasgu'n llesteirio twf gwreiddiau, yn cyfyngu ar dreiddiad dŵr ac yn lleihau'r ocsigen sydd ei angen i wreiddiau oroesi. (Gweler 4.4)
- 3.3 **Cynnal strwythur gwreiddiau iach.** Gall cloddio, graddoli a ffosio'n gysylltiedig ag adeiladu a gosod cyfleustodau o dan y ddaear wneud llawer o ddifrod i wreiddiau. Gall system wreiddiau coeden estyn yn llorweddol un i dair gwaith yn fwy nag uchder y goeden. Gall chywasgu neu cloddio mewn ardal amddiffyn gwreiddiau coeden leihau bywioldeb coeden gan arwain at y goeden/coed i farw cyn pryd. Gall torri gwreiddiau'n agos at y boncyff ddifrodi coeden yn ddifrifol ac achosi iddi gwympto mewn gwyntoedd cryfion. (Gweler adran 4.3)
- 3.4 **Cynnal lefelau pridd gwreiddiol.** Mae'r rhan fwyaf o wreiddiau sugno dŵr a mwynau ym 15 i 30cm uchaf y pridd lle mae'r lefelau ocsigen a lleithder yn tueddu i fod y mwyaf addas ar gyfer tyfiant. Gall hyd yn oed ychydig o gentimedrau o bridd wedi'i bentyrru dros y system wreiddiau i newid y radd fygu gwreiddiau mân ac arwain yn y pen draw at farwolaeth gwreiddiau mwy a cholli coed.
- 3.5 **Osgoi halogi gwreiddiau/pridd.** Gall gollyngiadau o danwydd neu gemegion adeiladu neu ddŵr ffo sment heb ei reoli newid pH pridd neu wenwyno gwreiddiau coed.
- 3.6 **Osgoi effaith ffisegol.** Gall cyfarpar adeiladu niweidio'r rhan o'r goeden sydd uwchben y ddaear trwy dorri canghennau, rhwygo'r rhisgl a chlwyfo'r boncyff. Mae'r anafiadau hyn yn barhaol ac, os ydynt yn helaeth, gallant fod yn farwol.

- 3.7 **Osgoi datguddio.** Mae coed mewn grŵp yn tyfu fel cymuned, gan amddiffyn ei gilydd rhag yr elfennau. Gall coed dyfu'n uchel gyda boncyffion hir, syth a chanopiâu uchel; mae cael gwared ar goed cyfagos wrth adeiladu'n datguddio gweddill y coed i fwy o olau'r haul a gwynt a all arwain at heulsgaldanu neu dorri brigau a choesyndau a chwythu gweddill y coed drosodd o bosibl.

#### 4.0 CYNWYS COED YN Y DATBLYGIAD

- 4.1 Caiff **Safon Brydeinig 5837:2012 - Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion** ei hystyried fel y ddogfen bennaf sy'n manylu ar y safon a'r arweiniad ar gyfer ymagwedd gytbwys ar benderfynu;

- Pa goed sy'n briodol i'w cadw;
- Effaith coed ar ystyriaethau dylunio; a
- Ffyrdd o warchod y coed hyn yn ystod gwaith datblygu.

Bydd angen cyfiawnhad ar amrywiad o'r arweiniad yn BS5837:2012 Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion sy'n benodol i safle.

- 4.2 **Cam Dylunio:** Mae arolwg coed yn unol â BS5837:2012 Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion yn rhoi gwybodaeth bwysig i alluogi gwneud penderfyniadau am ba goed a ddylai aros a lleoliad gwaith datblygu ar safle o ganlyniad. Am y rheswm hwn, **dylid comisiynu arolwg coed cyn gynted ag y bo modd yn y broses i lywio'r gwaith dylunio.** Bydd cyngor coedyddiaeth cynnar mewn rhai achosion hefyd yn amlygu a yw cynllun yn hyfyw ai peidio.

- 4.3 Wrth nodi coed i'w cadw, dylid ystyried eu hansawdd a'u cyflwr, eu potensial i dyfu yn y dyfodol, eu hirhoedledd a, lle y bo'n berthnasol, eu gwerth fel grŵp.

- 4.4 Yn bennaf, dylai cynllun cyfyngiadau coed ddangos ardal amddiffyn gwreiddiau ac eangderau canopiâu'r coed. Yr ardal amddiffyn gwreiddiau (AAG) yw'r ardal **leiaf** y mae ei hangen ar goeden i sicrhau y gall barhau i oroesi. **Ar gyfer coeden un coesyn, mae'r ardal hon yn gylch â radiws 12 x diamedr y coesyn, wedi'i fesur 1.5m uwchben lefel y ddaear.** Dylid addasu'r AAG o gylch os oes angen oherwydd y dopograffeg neu os oes rhwystr yn atal y gwreiddiau rhag tyfu i gyfeiriad penodol. Gall gwreiddiau coeden ymestyn ymhellach na'r ardal hon ac, ar adegau, dylid eu hamddiffyn y tu hwnt iddi (Gweler 4.8).


- 4.5 Fel arfer, ni chaniateir unrhyw waith datblygu, cloddio na mynediad o fewn AAG oni chymerir mesurau i atal difrod i'r goeden/coed ac y cytunir ar hyn yn ysgrifenedig gan yr ACLI cyn datblygu.
- 4.6 Yn ystod y camau dylunio a chynllunio, mae'n rhaid ystyried ffactorau amrywiol. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond dylai'r ffactorau canlynol gael eu hystyried:
- Gorchmynion cadw coed/gwarchod ardal gadwraeth a bywyd gwyllt a warchodir.
  - Effeithiau cynigion datblygu ar werth amwynder coed (ar ôl dylunio).
  - Cyfyngiadau isod y ddaear: dosbarthiad gwraidd, ardaloedd diogelu gwreiddiau addas gan gymryd i ystyriaeth morffoleg gwraidd.
  - Cyfyngiadau uwchben y ddaear (gan gynnwys coed gormesol a mawr yn agos at adeiladau/ddatblygiad arfaethedig, argaeledd golau (cysgod), safleoedd darpariaethau isadeiledd a allai effeithio ar goed ac y gall coed effeithio arnynt). Hefyd, dylid ystyried twf y coed yn y dyfodol. Gellir edrych am arweiniad dylunio i leihau cysgodi solar o BRE "Gynllunio cynllun y safle ar gyfer golau dydd a golau haul: canllaw i arfer da (BR 209)"<sup>20</sup>
  - Newid mewn hydroleg – lleihau y dŵr sydd ar gael neu gor lenwi â dŵr
  - Dylai dylunio leihau gwrthdrawiadau rhwng priffyrdd, goleuadau stryd, hysbysebion ac arwyddion, cyrbau/deunydd cynnal, arwynebau caled, triniaethau tirlunio meddal a choed presennol.
  - Gofynion Sicrhawyd Gan Dylunio a darpariaeth teledu cylch cyfyng
  - Lleddfu gwrthdrawiadau rhwng lefelau gorffenedig a choed presennol.
  - Lle mae pridd clai crebachadwy/eangadwy yn effeithio ar safle, rhoddir sylw i ddyluniad sylfeini adeiladu, waliau a phalmentydd fel eu bod yn ddigonol i osgoi problemau symud yn y dyfodol wedi'u gwaethygu gan wreiddiau coed presennol a phlannu coed newydd. Gan gymryd sylw arbennig o faint terfynol o goed aeddfed a'u heffaith ar lleithder pridd. Ceir arweiniad ar ddylunio i'w gael yn y safonau NHBC, gan adeiladu coed agos, pennod 4.2<sup>14</sup>
  - Llwybrau gwasanaethau tanddaearol. Mae'n annerbyniol i wasanaethau tanddaearol ddilyn llwybrau trwy ardaloedd amddiffyn gwreiddiau coed presennol.
  - Ni ddylid gosod ffosydd cerrig ger coed gan y gall gwreiddiau coed gamfanteisio ar y fath ardaloedd a gall ffosydd cyflenwi gael eu hatal.
  - Mae angen ystyried egwyddor cydbwysu cael gwared ar goed, llwyni a gwrychoedd ag ansawdd y gwaith tirlunio arfaethedig yn ofalus ar y dechrau ac ni ddylai fod yn ôl-ystyriaeth. Mae'n debygol y bydd GCC yn diogelu gwaith plannu coed arfaethedig yn barhaus i leddfu effaith colli coed y cafwyd gwared arnynt efallai fel rhan o'r broses ddatblygu ac wrth greu lle. (Gweler 8.6)



- 4.7 Mae coed hynafol yn goed sydd yn nhrydydd cam neu gam olaf eu hoes ar gyfer y rhywogaeth benodol ac yn 'hen' o'u cymharu â choed o'r un rhywogaeth. Efallai nad yw coeden hynod yn hen ond, oherwydd ei hamgylchedd neu ei phrofiadau oes, mae wedi datblygu nodweddion gwerthfawr coeden hynafol. Mae'r ddau ddsbarthiad o goed yn llai tebygol o allu goroesi triniaeth ar goed neu aflonyddu ar wreiddiau. Mae coed hynafol o fudd hanesyddol ac yn rhan werthfawr o'n treftadaeth ddiwylliannol. Mae pob coeden unigol wedi goroesi o'r gorffennol ac yn perthyn i dirwedd gynharach. Maent yn ddogfen fyw o arferion rheoli a ffyrdd o fyw'r gorffennol. Mae gan Brydain ryw 80% o goed 'hynafol' Ewrop. Os nodir coed/coetir hynod neu hynafol ar safle, mae'n rhaid eu hystyried yn ofalus mewn perthynas â chynnig datblygu ac mae'n rhaid gwneud pob ymdrech i integreiddio'r goeden i gynnig datblygu o gam cynnar i sicrhau goroesi a chadw yn y tymor hir. Yn ddelfrydol, byddai coed hynafol yn cael eu cadw mewn lle agored cyhoeddus i leihau pwysau yn y dyfodol gan breswylwyr sydd am gael gwared ar y coed yn eu cwrtil. Rhoddir ystyriaeth arbennig i goed hynod a hynafol yn yr CDU
- 4.8 Mewn amodau safle ffafriol, gaiff yr ardal amddiffyn gwreiddiau ar gyfer coed hynafol a ei ystyried fydd 15 x diamedr y coesyn ar 1.5m o lefel y ddaear (Coed Hynod: *Arweiniad i reoli da*<sup>14</sup> - *Veteran Trees: A guide to good management*<sup>14</sup>). Mae hyn er mwyn ystyried eu hanoddefgarwch i aflonyddu ar wreiddiau.
- 4.9 Er y bydd yr arolwg coed yn llywio'r broses ddylunio a chynllun y safle yn y pen draw, mae'r ACLI yn cydnabod anghenion cystadleuol datblygu a bod coed yn un ffactor yn unig y mae angen ei ystyried. Fodd bynnag, mae rhai coed, coetiroedd a gwrychoedd o'r fath bwys a sensitifrwydd y maent yn atal gwaith datblygu rhag digwydd neu mae'n rhaid addasu ei ddyluniad a'i gynllun yn sylweddol.
- 4.10 Dylid cymryd gofal hefyd i osgoi cadw coed anaddas; gallai ceisio cadw gormod o goed o safon isel, coed anaddas neu goed sy'n annhebygol o oroesi'r broses ddatblygu ar safle arwain at bwysau gormodol yn ystod ac ar ôl gwaith datblygu a'r galw dilynol i gael gwared arnynt. Efallai mai'r canlyniad terfynol fydd dyluniad gwael â llai o goed neu lai o gysgod coed addas a chynaliadwy nag os byddai camau cynllunio gofalus a chynghor coedyddiaeth a/neu dirlunio arbenigol wedi'u dilyn o'r cychwyn.
- 4.11 Gall coed wrthdaro â llawer o agweddau ar ddatblygiad safle. Trwy gydol y broses ddatblygu, dylai holl aelodau'r tîm dylunio roi ystyriaeth ddigonol i ofynion coed. **Hyd yn oed os nad oes coed ar y safle, dylid nodi coed oddi ar y safle ac ardaloedd plannu coed, lle effeithir arnynt o bosibl, a'u plotio ar y Cynllun Cyfyngiadau Coed a'u diogelu rhag difrod neu gywasgu.**

## 5.0 GOFYNION CAIS

- 5.1 Er nad oes angen cyflwyno dogfennaeth i'r ACLI ar gyfer gwaith adeiladu a wneir fel **datblygiad a ganiateir**, yn gyffredinol bydd er lles pennaf i ddeiliad y tŷ ystyried dilyn yr arweiniad yn y ddogfen hon. Nid yw hawliau datblygiad a ganiateir yn caniatáu difrod i goed a warchodir (gan gynnwys coed cymwys mewn Ardal Gadwraeth<sup>5</sup>) a bydd angen cais gwaith coed os yw gwaith yn debygol o effeithio ar goed a warchodir. Bydd angen i waith adeiladu gydymffurfio â rheoliadau adeiladu a dylai gwaith dylunio sylfeini ddilyn arweiniad yn Safonau CCAT, Adeiladu ger Coed, (Pen 4.2)<sup>14</sup>
- 5.2 Hefyd, dylid ystyried coed ar dir cyfagos y gallai datblygiad a ganiateir effeithio arnynt hefyd gan y gellir cymryd camau gweithredu dan y gyfraith gyffredin os yw difrod yn achosi i'r goeden farw, yn niweidio'r bobl gyfagos neu'n difrodi'r eiddo cyfagos. (Gweler hefyd 4.11)
- 5.3 **Ar gyfer ceisiadau deiliaid tai** (e.e. yr holl waith ar un annedd, ac eithrio adeiladu tai) dylid plotio'r holl goed (coesynnau ac eangderau canopiâu) a gwrychoedd ar y safle neu o fewn pellter dylanwadu (h.y. oddi ar y safle) yn fanwl gywir ar gynllun bloc. Dylid dangos manylion y coed sydd i'w cadw, eu gwaredu a'u brigdorri.
- 5.4 Lle mae'r cynllun bloc yn dangos gwrthdaro rhwng y cynigion a'r coed, dylai Aseiad Effaith Coedyddiaeth gael ei gyflwyno a'i baratoi gan dyfwr coed profiadol a chymwysedig.



**Sampl Cynllun  
Cyfyngiadau Ddeiliaid Tai.**

- 5.5 **Ar gyfer datblygiad mwy** (e.e. gwaith adeiladu newydd, gwaith mwynol a chynigion datblygu gwastraff) lle mae coed ar safle datblygiad arfaethedig neu o fewn pellter dylanwadu iddo (h.y. oddi ar y safle), mae'n debygol y bydd angen arolwg tir, arolwg coed BS 5837 ac Asesiad Effaith Coedyddiaeth.
- 5.6 Lle y bo modd, bydd Cynllun Gwarchod Coed a Datganiad Dull Coedyddiaeth a Chynllun Tirwedd yn aml yn amod cynllunio a gall fod angen yr wybodaeth hon i ddangos bod y gwaith datblygu'n ddichonol (posibl) cyn cymeradwyo.
- 5.7 Fel arfer, bydd angen arolwg coed ar gyfer **caniatâd amlinellol** yn unig. Fodd bynnag, os yw'r cynllun neu'r dwysedd dangosol yn dangos datblygiad ger coed, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Effaith Coedyddiaeth a dylid cyflwyno hyn hefyd. Bydd hyn yn gwerthuso gwrthdrawiadau posibl yn y dyfodol rhwng y datblygiad a maint terfynol coed a gwrychoedd cyfagos sydd i aros. Os ystyrir bod yr effeithiau'n ffigythiad i'r coed, efallai y bydd angen Cynllun Gwarchod Coed a Datganiad Dull Coedyddiaeth hefyd.

	Ceisiadau Deiliaid Tai	Ceisiadau Amlinellol	Ceisiadau Llawn
Coed a Gwrychoedd wedi'u Plotio ar Gynlluniau Bloc a Safle	✓	✓	✓
Cynllun Gwasanaethau a Draeniad	✓	* (efallai y bydd eu hangen)	✓
Arolwg Tir	X	✓	✓
Arolwg Coed BS 5837	* (efallai y bydd eu hangen)	✓	✓
Asesiad Effaith Coedyddiaeth (AEC)	* (efallai y bydd eu hangen)	✓ (os oes modd rhagweld effeithiau ar goed)	✓
Cynllun Gwarchod Coed (CCC)	* (efallai y bydd eu hangen)	✓ (efallai y bydd eu hangen i ddangos bod datblygiad yn ddichonol neu y bydd yn fater wedi'i gadw'n ôl)	✓ (gallant fod yn destun amodau)
Datganiad Dull Coedyddiaeth (DDC)	* (efallai y bydd eu hangen)	✓ (efallai y bydd eu hangen i ddangos bod datblygiad yn ddichonol neu y bydd yn fater wedi'i gadw'n ôl)	✓ (gallant fod yn destun amodau)

Tabl 1: Bydd angen dogfennaeth gyda mathau gwahanol o gais.

## 6.0 AMODAU CYNLLUNIO


- 6.1. Mae cynllun gwarchod coed yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os caiff ei gyflwyno a'i gymeradwyo fel rhan o'r broses gynllunio.
- 6.2 Bydd amodau'n cael eu rhoi ar ganiatâd cynllunio i sicrhau bod ffensys digonol o gwmpas Ardaloedd Amddiffyn Gwreiddiau coed cadw am hyd cam dymchwel/adeiladu'r datblygiad.
- 6.3 Bydd angen i ddatblygwyr roi gwybod i'r ACLI cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, gan gynnwys gwaith dymchwel neu glirio llystyfiant. Ar y cam hwn, bydd swyddogion y cyngor yn archwilio'r mesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i warchod coed yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd ymweliadau i'r diben yn cael eu cynnal trwy gydol y cam adeiladu i wirio bod mesurau gwarchod coed ar waith o hyd. Bydd yr ACLI yn arfer ei bwerau gorfodi, lle y bo angen, i sicrhau cydymffurfio.
- 6.4 Yn ogystal â disgwyl i ddatblygwyr gael y cyngor proffesiynol priodol yn ystod y cam gwneud cais, efallai y bydd yr ACLI hefyd yn rhoi amod i sicrhau goruchwyliaeth ddigonol o'r cam adeiladu gan Coedyddiwr y datblygwr ei hun.
- 6.5 Os ceir anawsterau ar unrhyw adeg yn ystod y broses adeiladu wrth gydymffurfio ag amodau sy'n ymwneud â choed (e.e. wrth gynnal y pellterau ffensys diogelu'n unol â'r Cynllun Gwarchod Coed) a dymunir addasu telerau amodau, bydd angen ymgynghori â'r ACLI a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo cyn ymgymryd â newidiadau.
- 6.6 **Methiant â chydymffurfio ag Amodau Cynllunio:** Lle y nodir achos o dorri amod cynllunio sy'n ymwneud â gwarchod coed, bydd yr ACLI yn cymryd camau gorfodi priodol. Gallai hyn gynnwys cyflwyno 'Hysbysiad Atal Gwaith' ar safle adeiladu lle cafwyd tor-amod, neu gychwyn achos cyfreithiol dan Adran 210 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## 7.0 CYNLLUN AMDDIFFYFN COED A'R DATGANIAD DULL COEDYDDIAETH

- 7.1 **Mae'n rhaid gosod ffensys gwarchod coed cyn i unrhyw agwedd ar ddatblygiad ddechrau** a'u cadw yn y safle hwn trwy gydol cyfnod y datblygiad. Mae'n rhaid i'r ffensys fod yn y safle cyn dymchwel, dechrau gwneud gwaith tir, dod â deunyddiau ar y safle etc. Mae'r rhan fwyaf o ddifrod i bridd a choed ar safleoedd datblygu'n digwydd yn ystod y gweithgareddau hyn. Os oes angen cynlluniau ffensys eraill ar gyfer camau amrywiol y gwaith dymchwel ac adeiladu, mae'n rhaid manylu ar

y rhain yn y Cynllun Gwarchod Coed gyda diffiniad clir rhwng cynlluniau a 'chamau'.

## 7.2 Dylai'r holl weithwyr fod yn ymwybodol o'r holl fesurau gwarchod coed



### Typical Detail: Tree Protection Fence To BS5837


a dylai copi o'r Cynllun Gwarchod Coed cymeradwy, Datganiadau Dull Coedyddiaeth a chopi o'r caniatâd cynllunio gydag amodau fod ar gael i'w harchwilio ar y safle. Mae'n **RHAID** dilyn y rheolau syml canlynol trwy gydol camau dymchwel ac adeiladu'r gwaith datblygu:

- Peidiwch â symud y ffensys diogelu o gwmpas AAG am yr un rheswm heb gymeradwyaeth flaenorol.
- Atgyweiriwch unrhyw ddifrod i'r ffensys diogelu o gwmpas AAG ar unwaith.
- Peidiwch â pharcio na gweithredu offer a chyfarpar ger coed.
- Peidiwch â storio deunyddiau yn yr AAG. Mae'n rhaid cadw difwynwyr (tanwydd, olew a chemegion) o leiaf 10m o'r ardal a warchodir.
- Peidiwch â chymysgu deunyddiau seiliedig ar sment ger coed (Gweler hefyd 7.6)
- Peidiwch â chynnu tanau o fewn 10m i goeden a gochelwch rhag fflamau sy'n crwydro tuag at ganghennau.
- Peidiwch â chlymu ceblau neu lifoleuadau uwchben dros dro'n dynn wrth goed.
- Peidiwch â newid lefel y tir na chloddio o fewn eangderau canghennau coed presennol.

7.3 Diben y Cynllun Gwarchod Coed yw rhoi mesurau diogelu lleoliad a ffisegol manwl gywir, gan gynnwys diogelu tir, ar gyfer coed, coetiroedd neu wrychoedd ar safle datblygu neu'n union gyfagos ato y maent wedi'u nodi i'w cadw ac y mae'n debygol y byddai'r datblygiad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'n rhaid i'r cynllun fod yn addas at y diben a chynnwys digon o fanylion fel y gall y contractiwr roi'r mesurau ar waith.

7.4 Bydd y Cynllun Gwarchod Coed yn ystyried yr

## Sampl Cynllun Amdiffyn Coed



### Tree Protective Fencing

Trees for removal to be identified from the drawing and marked by an arboriculturist on site. No vehicles to enter the grass verge or root protection zone during tree removal or fencing installation/removal. Fencing to be installed prior to any construction works including demolition, materials delivery, works compound installation. The location of the tree protective fencing is indicative only and must not be directly measured from this plan. Its true location must be surveyed accurately on site and where applicable be measured from the tree centre by the stated dimension value. Fencing to remain in place until all construction works have ceased.

### BS5837: 2012 Recommendations (extract)

6.2.2 - Barriers  
6.2.2.1 - Barriers should be for the purpose of excluding construction activity and appropriate to the degree and proximity of work taking place around the retained tree(s). Barriers should be maintained to ensure that they remain rigid and complete.  
6.2.2.2 - The default specification should consist of a vertical and horizontal scaffold framework well braced to resist impacts, as illustrated in Figure 2. The vertical tubes should be spaced at a maximum interval of 3m and driven securely into the ground. Onto this framework, welded mesh panels should be securely fixed.

### Fencing Specification

The fencing will comprise of standard GS7 / Heras styled steel self-supporting security fencing panels. The panels must be securely clamped together. They must be secured to the ground with robust steel stakes to a depth of 600mm. These are to be securely clamped to the panels. The use of steel mesh panels in conjunction with clamps and self-supporting bases are not acceptable for use. They must be secured to the ground with stakes to prevent movement. Where stated, additional bracing of the panels must use angled scaffolding poles to prevent further movement (See Figure 2).


### The reason for Protective Fencing Around Trees:

The major cause of damage to trees on construction sites is due to soil compaction. Roots use the spaces between soil particles to obtain Oxygen, Water and Nutrients. Heavy plant and machinery compacts the soil, squashing out the air spaces and preventing root function. A compacted soil structure will stay compacted. Consequently the tree suffers and will show signs of branch die-back that may take several years to appear. Soil compaction over roots can be prevented by maintaining a fenced exclusion zone over the tree roots. The exclusion zone is calculated using British Standard 5837:2012. Protective Fencing is installed around the calculated area. Protective Fencing is a condition of planning approval, if it is removed or repositioned the construction firm is in breach of a condition and may be subjected to legal action.

### Key: Tree Protection Methods



### Key:




Root Protection Area (RPA) (indicating the minimum area around a tree deemed to contain sufficient roots and rooting volume to maintain the tree's viability and where the protection of roots and soil structure is treated as a priority)

Shade Pattern - not shown on plan

Definitions of BS5837:2012 Categories for Woodland and Hedgerows - Colour Coded

- A - Those of high quality with an estimated remaining life expectancy of at least 40 years. (Suitable for retention)
- B - Those of moderate quality with an estimated remaining life expectancy of at least 20 years. (Suitable for retention)
- C - Those of low quality with an estimated remaining life expectancy of at least 10 years, or young trees with a stem diameter below 150mm. (Suitable for retention)
- U - Those in such a condition that they cannot realistically be retained as living trees in the context of the current land use for longer than 10 years (Unsuitable for retention)



Typical Detail:  
Tree Protection Fence To BS5837

Figure 2

AAG, ardaloedd tirlunio strwythurol arfaethedig, coed i'w cadw a'u gwaredu ac union leoliad atalfeydd diogelu a'u harwyddion. Bydd

atalfeydd yn addas at ddiben rhwystro gweithgarwch adeiladu ac yn briodol i ddwysedd ac agosrwydd gwaith sy'n cael ei wneud ger coed wedi'u dewis i'w cadw. Bydd angen cyfiawnhad i wro o'r Safon Brydeinig ddiodyn.

7.5 Bydd y **Cynllun Gwarchod Coed** yn rhoi manylion am y canlynol:

- Dulliau ffisegol gwarchod coed ar y safle, wedi'u nodi trwy ddarluniau a/neu destun disgrifiadol.
- Safle ffensys gwarchod coed ac unrhyw amddiffyniad tir sy'n dangos y safle gwirioneddol gyda dimensiynau o bwynt sefydlog.
- Dylid nodi dimensiynau'r ardal waharddedig a'i safle a'r math o arwyddion sy'n eu nodi'n ardaloedd gwaharddedig ar y Cynllun Gwarchod Coed.
- Dylai'r gofynion ffensys amddiffynnol sy'n briodol ar gyfer y datblygiad gael eu nodi yn y Cynllun Gwarchod Coed a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr ACLI cyn i waith ddechrau ar y safle.
- Lle mae manylion gwaith cymeradwy'n nodi y caiff ei wneud yn yr AAG, bydd manylion safle ffens wedi'i ailosod, yn ogystal â manylion amddiffyniad tir penodol, yn cael eu rhoi.
- Rhaid i'r cynllun fod ar raddfa addas, gyda phwynt gogledd a bar graddfa.

7.6 Bydd **Datganiad Dull Coedyddiaeth** yn disgrifio gweithredoedd adeiladu yr ymgwymerir â nhw ger coed y tynnwyd sylw atynt yn yr asesiad effaith coedyddiaeth. Bydd y Datganiad Dull Coedyddiaeth yn ystyried yr holl weithredoedd adeilad yr ymgwymerir â nhw ger coed, ac yn eu cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys yr agweddau canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt;

- Mynediad i safle adeiladu;
- Dwysedd a natur y gweithgarwch adeiladu;
- Atebion peirianneg arbennig (sylfeini etc.) i warchod coed;
- Nodi manylion wynebau dim cloddio mewn AAG coed a datganiad dull;
- Dull cloddio cymeradwy mewn AAG;
- Parcio ceir contractwyr a chamau'r gwaith adeiladu;
- Lle gofynnol ar gyfer cloddio sylfeini a gwaith adeiladu;
- Lleoliad a lle gofynnol i gyflenwi gwasanaethau, tanddaearol ac uwchben, gan gynnwys: ffosydd dŵr brwnt a dŵr wyneb, ffosydd tir, ffosydd cerrig, nwy, olew, dŵr, systemau gwres o'r ddaear, ceblau trydan, ffôn, teledu neu geblau cyfathrebu eraill;
- Yr holl newidiadau yn lefelau tir, gan gynnwys lleoliad waliau cynnal a grisiau, creu digon o le ar gyfer sylfeini'r fath adeileddau, ffosydd ac ôl-lenwi;
- Lle ar gyfer craenau, peiriannau, sgaffaldiau a mynediad yn ystod gwaith;
- Lle ar gyfer cabanau safle, toiledau dros dro (gan gynnwys eu draenio) ac adeileddau dros dro eraill;

- Math a maint y gwaith tirlunio y bydd ei angen yn yr ardal a amddiffynnir, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y systemau gwreiddiau
- Lle ar gyfer cadw deunyddiau, gollyngiad a thanwydd (boed dros dro neu dymor hir) a chymysgu sment a choncrit (yn cynnwys storio);
- Effaith llethr ar symudiad gollyngiadau hylif a allai fod yn niweidiol i ardaloedd a amddiffynnir neu tuag atynt.
- Sylw arbennig, lle y bo'n berthnasol, i'w roi i uchder storio uwchbriddoedd ac isbriddoedd sydd i'w hailddefnyddio a dylid ymdrin â hyn yn unol â BS 3882:2015 a BS 8601:2013
- Mesurau ar gyfer ymdrin â Chanclwm Japan/Ffromlys Chwarennog(Himalaya) etc.
- Unrhyw gyfarwyddyd gwylio coedyddiaeth i fonitro a chadarnhau rhoi mesurau gwarchod coed ar waith a'u cynnal.
- Manyleb llawdriniaeth coed (yn unol â BS3998:2010 Gwaith coed – Argymhellion)
- Dull ar gyfer lleddfu damweiniau neu fynd yn groes i'r Cynllun Gwarchod Coed.

## 8.0 PLANNU COED A LLWYNI

- 8.1 Efallai y bydd angen plannu coed, llwyni a gwrychoedd newydd priodol, ymysg cynigion tirlunio eraill, ar safleoedd datblygu i wella amwynder, lleddfu colled cysgod canopi coed a rhoi ymdeimlad o 'le'. Hefyd, gall fod at ddiben lleddfu yn sgîl colli bioamrywiaeth oherwydd torri coed.
- 8.2 Dylai plannu gael ei wneud yn unol â Safon Brydeinig BS8545 '*Coed: o feithrin i annibyniaeth yn y dirwedd – Argymhellion*' '*Trees: from nursery to independence in the landscape –Recommendations*'..
- 8.3 Wrth ddewis y coed i'w plannu, dylid ystyried cynllun a dyluniad y safle, ei ddefnydd yn y dyfodol, amodau pridd a hinsawdd, anian y dirwedd leol a'r amgylchoedd cyd-destunol. Mae'n rhaid cynllunio digon o le yn y cynllun i alluogi'r coed i gyrraedd eu maint aeddfed.
- 8.4 Dylai coed wedi'u plannu fod o rywogaeth sy'n cyd-fynd â graddfa a strwythur y datblygiad o ran maint a ffurf pan maent yn aeddfed.
- 8.5 Lle cynigir plannu coed mewn ardaloedd arwyneb caled (e.e. meysydd parcio a llwybrau cerdded), mae'n rhaid i fanylion am y draenio/dyfrhau (lle y bo angen) a maint tyllau plannu fod yn ddigonol i ddarparu cyfaint digonol o bridd i gefnogi maint terfynol y goeden/coed a blannwyd. (Mae rhagor o gyngor ar gyfeintiau gwreiddiau coed i'w weld yn y teitlau wedi'u marcio â \* yn yr adran gyfeirio.)
- 8.6 Dylai datblygiad masnachol a graddfa fawr ystyried sut gellir integreiddio coed yn y datblygiad, gan ystyried ffactorau eraill megis gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae arweiniad ar integreiddio



coed i'w weld yn *"Trees in the Townscape: A Guide for Decision Makers"* a gellir ei gyflwyno gan ddefnyddio'r arweiniad yn *"Trees in Hard Landscapes: A Guide for Delivery"*. (Gweler Polisi CDU EV35 'Dŵr Ffo Wyneb')

- 8.7 **Gwarchod coed pan fydd y datblygiad wedi'i gwblhau.** Dylid gofalu am goed sydd newydd gael eu plannu a'r rhai sydd wedi'u cadw mewn datblygiad pan fydd y datblygiad wedi'i gwblhau. Fel arfer, rhoddir amodau ar ganiatâd cynllunio i sicrhau y caiff coeden newydd, sy'n debyg o ran rhywogaeth, oed a maint, ei phlannu, yn yr un lleoliad, yn lle unrhyw goeden newydd sydd wedi'i chynnwys mewn cynllun tirlunio datblygiad os bydd yn afiach neu'n marw o fewn 5 mlynedd i gwblhau'r datblygiad neu unrhyw gyfnod amodol arall ar gyfer disodli methiannau coed a llwyni. Ar ôl i 5 mlynedd (neu gyfnod amodol arall ar gyfer disodli methiannau coed a llwyni) fynd heibio ar ôl cwblhau'r datblygiad, caiff yr ACLI ystyried gwneud GCC ar y coed a gadwyd yn flaenorol gan amod.

## 9.0 CYNGOR PROFFESIYNOL

- 9.1 Pwy mae angen i chi ei gyflogi - Ymgynghorydd Coed, Pensaer Tirwedd neu Lawfeddyg Coed /Contractiwr?

- Bydd Ymgynghorydd Coed yn rhoi cyngor proffesiynol ar iechyd a/neu ddiogelwch coeden; perthnasoedd ag adeiladau a safleoedd datblygu arfaethedig neu bresennol neu unrhyw fater coed arall y mae angen adroddiad arno.
- Bydd Pensaer Tirwedd cymwysedig, profiadol a chanddo adnoddau'n rhoi cyngor cynhwysfawr ar weithio gyda'r dirwedd bresennol a'i gwarchod. Bydd yn dylunio ac yn creu lleoedd gwych ac efallai y bydd yn rhoi cyngor ar faterion coed presennol. Gweler cysylltiadau â'r Sefydliad Tirwedd yn y dudalen gysylltiadau i weld yr hyn y gall Pensaer Tirwedd ei gynnig, categorïau aelodaeth y Sefydliad Tirwedd a dod o hyd i sefydliad â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol.
- Bydd Llawfeddyg Coed /Contractiwr cymwysedig, cymwys a phrofiadol yn rhoi gwasanaeth proffesiynol gan gynnwys brigdorri a gwaredu a gall roi cyngor sylfaenol ar gyflwr coed a gweithredoedd rheoli coed yn ôl yr angen.

**Ni chaiff yr ACLI argymhell pwy i'w gyflogi, ond nodir rhagor o arweiniad isod.**

9.2 **Ymgynghorydd Coed.** Dylai arolwg coeden yn cael ei gynnal gan tyfwr coed cymwysedig a phrofiadol (fel sy'n ofynnol gan BS5837). Rhaid i bob adroddiad yn nodi'r cymwysterau sydd gan y tyfwr coed a'r holl syrfeyr. A proffesiynol sy'n darparu math hwn o wasanaeth y dylai ddal Yswiriant Indemniad Proffesiynol ac un o'r cymwysterau canlynol neu safonau cydnabyddedig y diwydiant:

- Tystysgrif mewn lefel Coedyddiaeth 3/4 (Tech Arbor A).
- Diploma mewn lefel Coedyddiaeth 6 Dip Arb (RFS)
- BSc neu MSc (Gradd neu radd Meistr) mewn coedyddiaeth.
- Aelod Proffesiynol neu Gymrawd o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig] a gyrhaeddir gan lwybr coedyddiaeth / tyfwr coed Siartredig (MICFor / FICFor)
- Cymrawd yr Ymgynghorydd Coedyddiaeth Cymdeithas Coedyddiaeth Cymdeithas Cofrestredig

9.3 **Llawfeddyg Coed / Contractiwr.**

Gallai dewis y contractiwr anghywir arwain at:

- Anaf i bobl,
- Difrod i eiddo,
- Difrod diwrthdro i goed sydd wedi cymryd blynyddoedd lawer i dyfu...

Mae angen cryn dipyn o gymhwysedd technegol, wedi'i ategu gan hyfforddiant a phrofiad ar weithredoedd gwaith coed (coedyddiaeth). Am y rhesymau hyn, contractwyr cymwys, hyfforddedig, a chanddynt adnoddau ac yswiriant addas yn unig ddylai wneud gwaith coed. Chwiliwch am y canlynol:

- Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus (argymhellir o leiaf £5 miliwn)
- Tystysgrifau Cymhwysedd NPTC
- Dyfynbrisiau ysgrifenedig
- Aelodaeth o sefydliad proffesiynol. (Nid yw aelodaeth yn sicrhau safonau gwaith, ond mae yn dangos rhywfaint o ymroddiad)
- Geirdaon ar gyfer gwaith tebyg

9.4 Gall Coedyddwr (e.e. Ymgynghorydd Tyfu Coed) eich helpu i lunio'r ddogfennaeth y mae ei hangen ar yr ACLI wrth ategu cais cynllunio.

## CYFEIRIADAU

- <sup>1</sup> **Polisi Cynllunio Cymru** (Rhifyn 8, Ionawr 2016)
- <sup>2</sup> **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 10: Gorchmynion Cadw Coed** (1997)
- <sup>3</sup> **Cynllun Datblygu Unedol Dinas a Sir Abertawe.** Mabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2008
- <sup>4</sup> **Cynllun Datblygu Lleol 2016** sy'n Dod i'r Amlwg Dinas a Sir Abertawe
- <sup>5</sup> **Polisi Coed a Ddiogelir Drafft Dinas a Sir Abertawe**
- <sup>6</sup> **Safon Brydeinig BS5837:2012 Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu - Argymhellion**
- <sup>7</sup> **Safon Brydeinig BS3998:2010 Gwaith Coed – Argymhellion**
- <sup>8</sup> **Safon Brydeinig BS8545:2014 Coed: o feithrin i annibyniaeth yn y dirwedd – Argymhellion**
- <sup>9</sup> **Safon Brydeinig BS3882:2015 Manyleb ar gyfer uwchbridd**
- <sup>10</sup> **Safon Brydeinig BS8601:2013 Manyleb ar gyfer isbridd a gofynion i'w ddefnyddio**
- <sup>11</sup> **'Gwreiddiau Coed yn yr Amgylchedd Adeiledig'**. (2006). Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLIL)
- <sup>12</sup> \* **'Up by Roots' - Healthy Soils and Trees in the Built Environment.** James Urban. (ISA) (2008).
- <sup>13</sup> \* **'Urban Trees: A Practical Management Guide'**. Steve Cox. (2011)
- <sup>14</sup> **NHBC Standards, Building near trees**, Chapter (Pennod)4.2
- <sup>15</sup> **'Canllawiau Coed Hynafol Rhif 3: Coed a Datblygu.'**
- <sup>16</sup> **'Ancient and other veteran trees: further guidance on management'**. Lonsdale (2013)
- <sup>17</sup> **'Veteran Trees: A guide to good management'**. Helen Read. (2000). Mae'r holl lyfrau coed hynafol/hynod ar gael i'w lawrlwytho am ddim o [www.woodlandtrust.org.uk](http://www.woodlandtrust.org.uk).
- <sup>18</sup> **'Trees in the Townscape: A Guide for Decision Makers'**. 2012. TDAG
- <sup>19</sup> **'Trees in Hard Landscapes: A Guide for Delivery'**. 2014. TDAG. Mae'r ddau lyfr TDAG ar gael i'w lawrlwytho am ddim o <http://www.tdag.org.uk>
- <sup>20</sup> **'Site layout planning for daylight and sunlight: a guide to good practice (BR 209)'** BRE. P.Littlefair

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

- **Arboricultural Association (AA)**  
The Malthouse, Stroud Green,  
Standish,  
Stonehouse, Swydd Gaerloyw.  
G40 3DL  
Ffôn: 0 1242 522152  
E-bost: [admin@trees.org.uk](mailto:admin@trees.org.uk)  
Y We: [www.trees.org.uk](http://www.trees.org.uk)

*Yn rhoi cyngor ar goed ac yn  
llunio cyfeiriadur blynyddol o  
gyfyngiadau cofrestredig y  
Gymdeithas Tyfu Coed*

- **Consulting Arborist Society (CAS)**  
E-bost:  
[chairman@consultingarboristsociety.co.uk](mailto:chairman@consultingarboristsociety.co.uk)  
Y We:  
[www.consultingarboristsociety.co.uk](http://www.consultingarboristsociety.co.uk)

*Yn rhoi rhestr o dyfwyr coed  
(ymgyngorwyr coed) a  
gymeradwyr gan y  
Gymdeithas Tyfu Coed  
Ymgynghorol.*

- **British Standards Institute**  
Gwasanaethau Cwsmeriaid,  
389 Chiswick High Road,  
Llundain. W4 4AL  
Ffôn: 020 8996 9001  
E-bost:  
[cservices@bsigroup.com](mailto:cservices@bsigroup.com)  
Y We: [www.bsi-global.com](http://www.bsi-global.com)

*Darparu Safonau Prydeinig.*

- **Landscape Institute (LI)**

107 Grays Inn Road  
Llundain WC1X 8TZ  
Ffôn: 020 7685 2640  
<http://www.landscapeinstitute.org>

*Dewch i weld yr hyn y gall  
pensaer tirwedd ei gynnig a dod o  
hyd i sefydliad â'r sgiliau a'r  
arbenigedd y mae eu hangen  
arnoch.*

- **Arboricultural Advisory & Information Service,**  
Alice Holt Lodge, Wrecclesham,  
Farnham, Surrey. GU10 4LH.  
Ffôn: 09065 161147 (Cyfradd  
breimiwm) neu  
weinyddiaeth 01420 22022  
E-bost: [admin@treehelp.info](mailto:admin@treehelp.info)  
Y We: [www.treehelp.info/](http://www.treehelp.info/)

*Cyngor ac arweiniad ar ofal coed  
a materion sy'n gysylltiedig â  
choed ar safleoedd datblygu*

*Am fwy o wybodaeth,  
cysylltwch â:*

- **Cynllunio ac Adfywio Dinas**  
Cyngor Dinas a Sir Abertawe  
Canolfan Ddinesig  
Heol Ystymllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN  
01792 636000  
[cynllunio@abertawe.gov.uk](http://cynllunio@abertawe.gov.uk)  
[CoedaDdiogelir@abertawe.gov.uk](mailto:CoedaDdiogelir@abertawe.gov.uk)  
[www.abertawe.gov.uk](http://www.abertawe.gov.uk)

